# Arweiniad atadol ar arolygu presenoldeb

Hydref 2024

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw'r diben?**

Mae hwn yn rhoi mwy o arweiniad i arolygwyr ei ddefnyddio ochr yn ochr ag arweiniad y sector ar gyfer arolygu

**Ar gyfer pwy mae wedi'i fwriadu?**

Ysgolion a gynhelir ac UCDau a gwasanaethau addysg llywodraeth leol

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

Medi 2024

## Cynnwys Tudalen


| | |
|---|---|
| **Arweiniad atodol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Gwybodaeth gefndir** | **4** |
| **Cwestiynau i'w gofyn i staff** | **10** |

## Arweiniad atodol

Mae ein harweiniad arolygu yn esbonio Beth rydym yn ei arolygu a Sut rydym yn arolygu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector sy'n cael ei arolygu gan Estyn, oni bai eu bod yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ehangu ar agweddau penodol ar addysg / hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwys).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn drylwyr wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn. Hefyd, gallent fod yn fuddiol i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn arolygu gyda meddylfryd gadarnhaol i sicrhau bod y staff ym mhob darparwr yn cael y profiad dysgu proffesiynol gorau posibl
- Bydd arolygwyr yn defnyddio ymagwedd at arolygu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol dra ystyriol
- Bydd arolygwyr yn teilwra'r gweithgareddau arolygu yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr cyhyd ag y bo modd
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac ymatebol i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a byddant yn defnyddio'r amrywiaeth gynyddol o offer ac ymagweddau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant ond yn adrodd ar y cryfderau a'r gwendidau allweddol ym mhob darparwr

## Cyflwyniad

O dan y fframwaith arolygu ar gyfer Medi 2024, o dan faes arolygu 2, **dylai arolygwyr adrodd ar bresenoldeb pob un o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**.

Dylai arolygwyr gyfeirio at ‘Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr’, Canllaw rhif 293/2023 Llywodraeth Cymru

O fis Medi 2024, dylai arolygwyr adrodd ar bresenoldeb ym mhob adroddiad arolygu.

Yn eu tystiolaeth ategol, dylai arolygwyr bob amser ystyried:

- Pa mor dda y mae arweinwyr yn gwerthuso ac yn cynllunio ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion
- Effaith gwaith yr ysgol i wella presenoldeb
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gyda'r gymuned i wella presenoldeb
- Pa mor dda y mae'r ysgol yn cofnodi, yn dadansoddi ac yn ymateb i gyfraddau presenoldeb disgyblion
- Pa mor dda mae arweinwyr yn targedu ac yn defnyddio adnoddau i wella presenoldeb
- Pa mor dda mae’r ysgol yn cynorthwyo disgyblion i ailintegreiddio i’r ysgol yn dilyn cyfnodau o absenoldeb, gan gynnwys gwaharddiadau cyfnod penodol
- Pa mor dda mae’r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy’n osgoi’r ysgol am resymau emosiynol ac yn ymgysylltu â phob grŵp o ddisgyblion i wella’u presenoldeb o’u mannau cychwyn

a sut mae hyn yn effeithio ar:

- nifer y disgyblion sydd â chyfraddau presenoldeb ymhell islaw rhai eraill yn yr ysgol, yn enwedig y rhai â chyfraddau presenoldeb islaw 80% a’r rhai â chyfraddau presenoldeb islaw 90%
- well ymgysylltiad, cyfranogiad a chyfraddau presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion o gymharu â gweddill yr ysgol, fel disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- gyfraddau presenoldeb cymharol ar gyfer grwpiau blwyddyn ar draws yr ysgol
- p’un a yw disgyblion yn cyrraedd yr ysgol a gwersi yn brydlon
- p’un a yw unrhyw ddiffyg mewn presenoldeb yn effeithio ar safonau disgyblion neu grwpiau o ddisgyblion, gan ofalu i beidio â dim ond awgrymu achos yn sgil cydberthyniad

Dylai arolygwyr bob amser ystyried cyd-destun unigol yr ysgol, ac effaith COVID-19 ar gymuned yr ysgol a’r effaith ddilynol ar bresenoldeb.

Hefyd, dylai arolygwyr ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir gan yr ysgol, gan gynnwys eu data diweddaraf ar bresenoldeb. Dylent ystyried unrhyw ddadansoddiad a wnaed gan ysgolion i nodi ffactorau lliniarol a allai effeithio ar gyfraddau presenoldeb cyffredinol, er enghraifft, cyfran uchel o ddisgyblion ag

anghenion meddygol difrifol y mae angen iddynt fynychu apwyntiadau ysbyty rheolaidd neu gael amser gartref. Dylai arolygwyr ddefnyddio cyfarfodydd â disgyblion i fynd ar drywydd unrhyw gwestiynau sy’n dod i’r amlwg yn gysylltiedig â phresenoldeb, fel cael argraff os yw disgyblion yn deall canlyniadau presenoldeb gwael.

Er bod data cenedlaethol yn darparu cyd-destun i ystyried cyfraddau presenoldeb ysgol, ni ddylai arolygwyr gael eu dylanwadu’n ormodol gan gymariaethau â chyfraddau presenoldeb cenedlaethol gan fod y cyfraddau hyn yn llawer is na lefelau cyn y pandemig.

Ym MA3, mae’n bwysig bod arolygwyr yn canolbwyntio ar effaith arweinyddiaeth ar wella cyfraddau presenoldeb.

## Gwybodaeth gefndir

### Presenoldeb cyffredinol

Mae ffigurau presenoldeb swyddogol yn ymwneud â disgyblion 5 i 15 oed mewn ysgolion a gynhelir.

Mae'r ffigurau a nodir isod ar gyfer y sector cynradd ac uwchradd yn 2022-2023 yn ddata sydd wedi cael ei gasglu a'i wirio yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y ffigurau eraill yn dod o gasgliad wythnosol Llywodraeth Cymru o ddata presenoldeb ar ôl y pandemig, ac felly heb gael ei ddilysu.

Yn 2022-2023 a 2023-2024, nid oedd unrhyw gyfyngiadau a rheoliadau ar waith ar gyfer rheoli lledaeniad Covid-19, er bod disgyblion yn absennol o hyd ar adegau oherwydd y salwch. Mae hyn yn wahanol i'r achos yn 2021-2022 pan roedd cyfyngiadau a rheoliadau amrywiol ar waith ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn ysgol.

Y presenoldeb cyfartalog ar gyfer y flwyddyn academaidd rhwng 4 Medi 2023 ac 19 Gorffennaf 2024 yw 89.0%. Mae hyn yn dangos cynnydd o 0.5 pwynt canran o 2022-2023 a 2.4pwynt canran o 2021-2022.

Roedd presenoldeb ar ei uchaf, sef 94.0%, yn ystod wythnos gyntaf tymor yr hydref 2023-2024.

Cyrhaeddodd presenoldeb o leiaf 90.0% ar 89 diwrnod yn 2023-2024, o gymharu ag 85 diwrnod yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

Salwch oedd y rheswm mwyaf am absenoldeb disgyblion, a oedd yn cyfrif am 40.2% o'r holl absenoldebau. Roedd 33.2% o absenoldebau yn absenoldebau heb eu hawdurdodi gan ysgolion.

Roedd absenoldeb ar gyfer gwyliau teuluol yn cyfrif am 11.4% o bob absenoldeb yn 2023-2024, sef cynnydd nodedig o gymharu o 9.5% yn 2022-2023.

Roedd 31.9% o ddisgyblion yn absennol yn barhaus ar y trothwy 10% newydd yn 2023-2024, o gymharu â 32.5% y llynedd. Ar y trothwy 20%, roedd 10.0% o ddisgyblion yn absennol yn barhaus o gymharu â 10.7% yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

Roedd presenoldeb disgyblion gwrywaidd, sef 89.1%, ychydig yn uwch na phresenoldeb disgyblion benywaidd, sef 88.9%.

### Presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Y presenoldeb cyfartalog yn 2023-2024 ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 90.8%. Mae hyn yn dangos cynnydd o 0.4 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol, pan oedd yn 90.4%.

Y presenoldeb cyfartalog yn 2023-2024 ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd 83.4% o gymharu ag 83.1% yn y flwyddyn flaenorol. Felly, cynyddodd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim 0.4 pwynt canran yn unig. Felly, mae'r bwlch wedi aros fel yr oedd, sef 7.3 pwynt canran. Roedd 52.1% o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn

absennol yn barhaus ar y trothwy 10% ac roedd 21.6% o ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn absennol yn barhaus ar y trothwy 20%. Roedd y cyfraddau cyfatebol ar gyfer disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 26.1% a 6.6%.

**Presenoldeb yn ôl sector**

Mae’r tablau canlynol yn darparu data ar wahân sydd ar gael ar gyfer disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd. I gyd-fynd â’r data wedi’i ddilysu a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, mae’r data cynradd yn perthyn i’r flwyddyn academaidd gyfan ac mae’r data uwchradd yn perthyn i’r pum hanner tymor cyntaf.

| Presenoldeb (%) | | 2022-2023 | 2023-2024 | Newid |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd | Pob disgybl | 91.5 | 92.1 | 0.6 |
| | yn gymwys am PYDd | 87.4 | 88.1 | 0.7 |
| | ddim yn gymwys am PYDd | 92.9 | 93.4 | 0.5 |
| | Bwlch | 5.5 | 5.3 | 0.2 |
| Uwchradd | Pob disgybl | 87.3 | 87.6 | 0.3 |
| | yn gymwys am PYDd | 79.5 | 79.7 | 0.2 |
| | ddim yn gymwys am PYDd | 89.8 | 90.0 | 0.2 |
| | Bwlch | 10.3 | 10.3 | 0.0 |

**Presenoldeb disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol**

Dylai arolygwyr ystyried a yw disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu’r ysgol yn rheolaidd. Dylai arolygwyr ystyried anghenion unigol y disgyblion hyn, fel y nodir yn eu CDUau ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol yn ymwneud â phresenoldeb.

Dylai arolygwyr fod yn ymwybodol, ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-2023, bod y gwahaniaeth cyfartalog cenedlaethol rhwng presenoldeb disgyblion ag ADY (neu AAA) a’u cymheiriaid 5.4% yn is yn y sector uwchradd a 3.1% yn is yn y sector cynradd.

Lle mae’r gwahaniaeth yng nghyfraddau presenoldeb ysgolion ar gyfer disgyblion sydd ag ADY a’u cymheiriaid yn amrywio’n sylweddol o’r ffigurau hyn, dylai arolygwyr ymchwilio i’r rhesymau am hyn.

Mae’n rhaid i bob amserlen rhan amser (ARhA) gynnwys y cytundeb rhwng y rhieni/gofalwyr a rhaid cynnwys y disgybl, yr ysgol, yr awdurdod lleol ac unrhyw ymarferwyr perthnasol eraill sy’n gweithi gyda’r disgyblion.

Er y gall ARhA helpu disgyblion i ailintegreiddio i'r ysgol ar ôl absenoldeb hir neu fod yn fodd o atal mwy o absenoldeb, maent yn cael yr effaith gyffredinol o leihau amser yn yr ysgol i ddisgyblion a gallant gael effaith negyddol ar gynnydd a lles disgyblion. Yn ogystal, gall ARhA roi pwysau ar deuluoedd a gall fod â'r potensial i ddatgysylltu disgyblion ymhellach o addysg.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio ARhA fel mesur tymor byr dim mwy na 6 wythnos yn gyffredinol, gyda'r bwriad o ddychwelyd i addysg amser llawn yn gynt, os yw'n ymarferol. Dylai ysgolion sicrhau bod disgyblion ar ARhA yn derbyn addysg llawn amser, lle bo hynny'n briodol ar gyfer disgyblion unigol. Gallai hyn gynnwys darparu dysgu ar-lein, copïau caled o adnoddau. Dylai'r ysgol sicrhau y gall disgyblion gael mynediad at drefniadau o'r fath cyn rhoi ARhA ar waith.

Ni ddylid byth ddefnyddio ARhA fel ffordd o reoli materion ymddygiadol. Mae gan bob disgybl hawl i addysg llawn amser a mynediad i'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae'n ofynnol i ysgolion gyflwyno'r cwricwlwm, ac eithrio pan fydd eithriadau'n berthnasol.

Dylid cofnodi trefniadau ARhA mewn cynllun fel trefniant ffurfiol rhwng y rhiant/gofalwr, y plentyn, yr ysgol, yr ALl ac unrhyw weithredwr perthnasol arall. Mae'r ystod o gynlluniau y gallem eu gweld yn cynnwys cynllun ailintegreiddio yn dilyn gwaharddiad. Gallai cynllun symudiad a reolir fod ar waith i gefnogi newid mewn lleoliad fel rhan o broses i osgoi gwaharddiad parhaol. Gallai cynllun pontio fod ar gyfer disgybl sy'n symud o un math o ddarpariaeth i un arall. Byddai cynllun cymorth bugeiliol yn gynllun cyflawn i gefnogi lles disgybl nid yn unig am y trefniadau ARhA. Gellid defnyddio cynllun cefnogi ymddygiad hefyd fel rhan o drefniant ARhA.

Yng Nghymru yn 2023-24*,* roedd 2,279 o ddisgyblion EOTAS a oedd yn cael addysg y tu hwnt i’r ysgol yn bennaf. Roedd cyfuniad o 902 o ddisgyblion wedi cofrestru’n atodol, h.y. maen nhw’n treulio rhywfaint o amser yn yr ysgol. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae’r ysgol yn cefnogi’r disgyblion hyn ac yn eu hannog i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Os oes amserlen ran amser ar waith i ddisgybl, dylai arolygwyr ddisgwyl gweld cynlluniau ailintegreiddio, cynlluniau pontio, cynlluniau cymorth bugeiliol, cynlluniau cymorth ymddygiad a, lle bo hynny’n briodol, cynlluniau symudiadau wedi’u rheoli.

Mewn dosbarthiadau awdurdodau lleol ac ysgolion arbennig, gall amrywiaeth o ffactorau effeithio ar gyfraddau presenoldeb, er enghraifft cyflyrau meddygol disgyblion a/neu gydafiacheddau. Hefyd, gallai’r disgyblion hyn fod ag absenoldebau ychwanegol oherwydd apwyntiadau meddygol neu therapiwtig, a allai effeithio’n negyddol ar eu presenoldeb. Dylai arolygwyr ystyried sut mae’r ysgol yn cefnogi disgyblion a’u teuluoedd yn yr achosion hyn.

## Presenoldeb a phontio

Wrth ystyried presenoldeb disgyblion ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae ysgolion uwchradd wedi ystyried presenoldeb disgyblion fel

rhan o arferion pontio. Dylent ystyried pa mor dda y mae ysgolion uwchradd yn dwyn ymagwedd ragweithiol a gwybodus tuag at wella presenoldeb a lleihau absenoldebau.

- A yw presenoldeb disgyblion yn rhan o drafodaethau a rhannu gwybodaeth am bontio?
- A yw ysgolion uwchradd yn adnabod yn gynnar y disgyblion hynny y gallent fod mewn perygolperygl o gael presenoldeb gwael?
- Pa mor gyflym y mae cymorth ar waith i'r disgyblion hynny yr oedd eu presenoldeb yn wannach mewn ysgolion cynradd?

**Presenoldeb grwpiau blwyddyn**

Mae'r tabl isod yn dangos presenoldeb cyfartalog yn ôl grŵp blwyddyn:

| Blwyddyn | Presenoldeb cyfartalog ar gyfer 2021-2022 | Presenoldeb cyfartalog ar gyfer 2022-2023 | Presenoldeb cyfartalog ar gyfer 2023-2024 |
|---|---|---|---|
| 1 | 89.6% | 90.8% + | 91.8% |
| 2 | 90.0% | 91.6% + | 92.3% |
| 3 | 90.2% | 91.8% + | 92.5% |
| 4 | 90.1% | 91.8% + | 92.2% |
| 5 | 89.7% | 91.7% + | 92.0% |
| 6 | 89.6% | 91.4% + | 91.9% |
| 7 | 88.4% | 90.6% * | 90.9% |
| 8 | 86.3% | 88.4% * | 88.3% |
| 9 | 84.8% | 87.2% * | 87.2% |
| 10 | 84.7% | 86.6% * | 86.9% |
| 11 | 77.4% | 84.4% * | 84.6% |

**Presenoldeb yn ôl awdurdod lleol**

Mae'r tabl isod yn dangos presenoldeb ar gyfer pob disgybl yn 2023-2024 yn ôl awdurdod lleol a lefelau absenoldeb wedi'u hawdurdodi a heb eu hawdurdodi. Mae hyn yn darparu cyd-destun defnyddiol wrth ystyried presenoldeb ysgol unigol.

| **Awdurdod lleol** | **Canran y sesiynau yn bresennol, ar gyfartaledd** | **Canran y sesiynau absenoldeb wedi'i awdurdodi, ar gyfartaledd** | **Canran y sesiynau absenoldeb heb ei awdurdodi, ar gyfartaledd** |
|---|---|---|---|
| Wrecsam | 90.1 | 7.3 | 2.6 |
| Powys | 90.0 | 8.1 | 1.9 |
| Sir Fynwy | 90.0 | 7.8 | 2.2 |
| Sir y Fflint | 89.6 | 7.9 | 2.5 |
| Caerdydd | 89.6 | 6.2 | 4.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 89.5 | 7.6 | 2.9 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 89.4 | 6.4 | 4.2 |
| Ceredigion | 89.3 | 7.0 | 3.7 |
| Casnewydd | 89.3 | 6.1 | 4.7 |
| Gwynedd | 89.1 | 8.4 | 2.5 |
| Torfaen | 89.1 | 8.3 | 2.6 |
| Caerffili | 89.1 | 7.3 | 3.7 |
| **Cymru** | **89.0** | **7.3** | **3.6** |
| Abertawe | 89.0 | 7.6 | 3.3 |
| Merthyr Tudful | 88.7 | 6.6 | 4.7 |
| Ynys Môn | 88.7 | 8.4 | 2.9 |
| Sir Benfro | 88.7 | 8.2 | 3.1 |
| Conwy | 88.3 | 7.7 | 4.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 88.3 | 8.1 | 3.6 |
| Sir Ddinbych | 88.3 | 7.7 | 4.0 |
| Rhondda Cynon Taf | 88.2 | 7.1 | 4.6 |
| Castell-nedd Port Talbot | 88.0 | 6.5 | 5.4 |
| Blaenau Gwent | 87.7 | 8.7 | 3.6 |

Sylwch nad yw disgyblion mewn UCDau yn cael eu cynnwys yng nghyfraddau presenoldeb awdurdodau lleol. Yn nodweddiadol, mae gan ddisgyblion mewn UCDau bresenoldeb is o lawer na'r cyfartaledd, felly os na chaiff y disgyblion hyn eu cyfrif yn nata awdurdod lleol, bydd yr awdurdod lleol yn cael ei gyflwyno mewn goleuni ychydig yn fwy ffafriol yn y tabl uchod. Nid oes gan ychydig o awdurdodau lleol UCD, felly mae'r holl ddisgyblion wedi'u cynnwys yn eu data.

Mwy o fanylion: Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 5 Medi 2022 i 24 Gorffennaf 2023 | LLYW.CYMRU

* Data wedi'i ddilysu o ddatganiad swyddogol Llywodraeth Cymru ar absenoldebau o ysgolion uwchradd

\+ Data wedi'i ddilysu o ddatganiad swyddogol Llywodraeth Cymu ar absenoldebau o ysgolion cynradd

Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir: 4 Medi 2023 i 19 Gorffennaf 2024

**Presenoldeb yn 2018-2019**

Hon oedd y flwyddyn academaidd lawn olaf cyn dechrau pandemig COVID-19. Mae'r tabl isod yn amlinellu cyfraddau presenoldeb ar gyfer y flwyddyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda dadansoddiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys (neu ddim yn gymwys) i gael prydau ysgol am ddim.

| | **Ysgolion cynradd** | **Ysgolion uwchradd** |
|---|---|---|
| Yr holl ddisgyblion | 94.7% | 93.8% |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim | 92.1% | 89.5% |

| | | |
|---|---|---|
| Disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim | 95.3% | 94.7% |
| Bwlch p.c. rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim | 3.2 p.c. | 5.2 p.c. |

## Cwestiynau i'w gofyn i staff mewn arolygiadau ysgolion a gynhelir

**MA2**

Sut mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu â phresenoldeb disgyblion eraill?

Sut mae presenoldeb disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cymharu â phresenoldeb disgyblion eraill?

A oes yna unrhyw grwpiau blwyddyn lle mae presenoldeb yn hynod gryf neu wan?

A oes yna unrhyw grwpiau eraill o ddisgyblion y mae presenoldeb yn destun pryder ar eu cyfer?

Pa mor dda y mae'r ysgol yn cofnodi ac yn dadansoddi data ar bresenoldeb, ac yn nodi meysydd i'w gwella? A yw'r ysgol wedi nodi unrhyw dueddiadau penodol mewn presenoldeb yn ymwneud â grwpiau penodol o ddisgyblion? A yw'r ysgol wedi dadansoddi unrhyw wahaniaethau nodedig yn eu defnydd o godau absenoldeb, o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol?

Pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da?

Pa mor dda y mae staff mewn ysgolion arbennig yn cefnogi ac yn annog disgyblion i fynychu'n rheolaidd? Pa brosesau sydd ar waith i leihau tarfu gan apwyntiadau therapiwtig a meddygol?

Pa mor dda y mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion â chyflyrau cronig neu gydafiacheddau i ymgysylltu â bywyd yr ysgol a chymryd rhan ynddo? A oes cynlluniau gofal iechyd ar waith?

Pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gyda theuluoedd i gynorthwyo disgyblion â phresenoldeb isel?

Pa mor dda y mae'r ysgol yn ymateb pan fydd disgyblion yn absennol oherwydd bod mynychu'r ysgol yn cael effaith niweidiol ar eu lles?

Pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gydag asiantaethau eraill i gynorthwyo disgyblion â phresenoldeb isel? (Dylai arolygwyr fod yn ystyriol fod capasiti gwasanaethau cymorth allanol, fel gwasanaethau lles addysg yr awdurdod lleol, yn parhau i gael ei ymestyn yn sylweddol o ganlyniad i bandemig COVID-19).

Os oes unrhyw ddisgyblion ar amserlen rhan amser yn yr ysgol, a yw'r trefniadau ar gyfer eu haddysg yn briodol ac yn cael eu monitro'n agos?

**MA3**

A oes gan arweinwyr yr ysgol drosolwg da o bresenoldeb, gan gynnwys meysydd i'w gwella?

Pa mor dda y mae arweinwyr yr ysgol yn cynllunio ar gyfer gwella presenoldeb?

Pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau i gefnogi presenoldeb da?

Pa mor dda y mae arweinwyr yn dosbarthu adnoddau i gynorthwyo rhieni/gofalwyr i annog eu plant i ymgysylltu, cymryd rhan a mynychu'n rheolaidd?

Mewn ysgolion â dosbarthiadau awdurdod lleol ac mewn ysgolion arbennig, pa mor dda y mae arweinwyr yn deall y cyd-destun i ddisgyblion ac yn mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag presenoldeb? Er enghraifft, dosbarthu staff i gyfarch, hyfforddiant teithio, dechrau a gorffen bob yn gam, y berthynas rhwng yr ysgol a chwmnïau cludiant.

**Cwestiynau i'w gofyn am bresenoldeb wrth arolygu UCD**

Pa mor dda mae'r UCD yn defnyddio'r wybodaeth am ddisgyblion sy'n cael ei rhannu cyn bod disgyblion yn dechrau er mwyn ystyried presenoldeb? A yw gwybodaeth yn cynnwys ymyriadau blaenorol i wella presenoldeb ac unrhyw ymglymiad gan asiantaethau allanol i ganiatáu i UCDau gynllunio ar gyfer gwella?

Os oes pryderon sylweddol am bresenoldeb disgyblion, pa mor effeithiol y mae'r wybodaeth yn cael ei rhannu â'r awdurdod lleol neu ei chyfeirio at banel awdurdod lleol am gymorth ychwanegol?

Pa mor drylwyr yw prosesau ar gyfer monitro a dadansoddi presenoldeb disgyblion a thueddiadau? Pa mor dda y mae codau presenoldeb yn cael eu monitro?

Pa mor dda y mae asiantaethau allanol yn cefnogi gwaith yr UCD i wella presenoldeb disgyblion?

Pa mor dda mae'r awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli yn monitro presenoldeb ar draws yr UCD?

Pa mor dda mae'r awdurdod lleol a'r pwyllgor rheoli yn monitro'r defnydd o addysg ran-amser a rhaglenni cymorth bugeiliol?

Pa mor effeithiol yw trefniadau i fynd i'r afael â materion presenoldeb, yn enwedig i ddisgyblion sy'n absennol yn gyson?

Pa mor effeithiol yw'r cyfleoedd i rannu arfer dda ar gyfer gwella presenoldeb disgyblion gyda darpariaethau tebyg eraill?

Pa mor dda mae cynnig y cwricwlwm yn hybu presenoldeb gwell?

Pa mor effeithiol yw prosesau i gynorthwyo rhieni/gofalwyr i fynd i'r afael â phryderon am bresenoldeb? Beth allai gael ei wella? Er enghraifft, a yw'r UCD yn archwilio rhesymau pam nad yw eu plentyn yn mynychu, ym marn rhieni/gofalwyr?

Pa mor dda y mae'r trefniadau i ddisgyblion fanteisio ar addysg ran-amser yn cael eu defnyddio a'u monitro? (Faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar addysg ran-amser? Ar gyfartaledd, am ba hyd y mae disgyblion yn manteisio ar addysg ran-amser? Gyda phwy y cytunir ar hyn? Pa mor aml y mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hadolygu? A oes cynllun cytunedig ar waith, sy'n cael ei rannu â'r rhieni/gofalwyr a'r disgyblion, i gynyddu mynediad i addysg?)

Os oes gan ddisgyblion leoliad deuol gydag ysgol brif ffrwd, pa mor dda y mae cyfraddau presenoldeb yn cael eu monitro? Pa mor dda y mae'r UCD yn gweithio gydag ysgolion prif ffrwd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau presenoldeb?

Pa mor dda y mae rhaglenni cymorth bugeiliol yn cael eu defnyddio? Pa mor effeithiol ydyn nhw a sut mae'r UCD yn gwybod? (Gyda phwy y cytunir ar y rhain? Gyda phwy y rhennir y rhain? A oes cynllun gweithredu cytunedig, gan gynnwys amserlen glir i ddychwelyd disgyblion i fynediad amser llawn i addysg?)

Pa mor dda y mae disgyblion yn deall pwysigrwydd mynychu'n rheolaidd?

Pa mor dda y mae disgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaethau am eu presenoldeb? (Pa mor aml? Beth yw effaith unrhyw drafodaethau? Beth mae disgyblion yn ei ddweud ynghylch pam nad ydynt yn mynychu'r UCD? A allant wneud unrhyw awgrymiadau am beth fyddai'n eu helpu i fynychu'n fwy rheolaidd?)

**Cynyddu presenoldeb fel rhan o arolygiad Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALIL)**

O Fedi 2024 ymlaen, dylai arolygwyr adolygu cyfraddau presenoldeb ysgolion fel rhan o arolygiad GALIL a chyfeirio at bresenoldeb yn yr adroddiad, lle bo hynny'n briodol. Bydd hyn i ymateb i gwestiwn arolygu lleol penodol am bresenoldeb, neu fel rhan o ymateb i gwestiwn ehangach, er enghraifft cwestiwn am effeithiolrwydd gwasanaethau gwella ysgolion neu gwestiwn am gymorth i grŵp penodol o ddysgwyr bregus. Wrth ystyried presenoldeb ar lefel awdurdod lleol, bydd arolygwyr yn ystyried cyd-destun yr awdurdod lleol, ynghyd â chyfraddau presenoldeb yn lleol ac yn genedlaethol cyn pandemig COVID-19. Pan fydd presenoldeb mewn awdurdod lleol islaw lefelau cyn y pandemig yn sylweddol, dylai arolygwyr ystyried yn gryf gynnwys argymhelliad i wella presenoldeb yn yr adroddiad arolygu.